

soundlands yn cyflwyno:
soundlands presents:

# GARDD PIANO GARDEN

**Annea Lockwood**
**Caerdroia, Llanrwst**

www.soundlands.org

Seindiroedd Soundlands

DATRYS

Golygfa Gwydyr

cae
cronfa arbrofol eryri
sustainable development fund

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## YR ARDD BIANO

Yn 2013 bu i Soundlands ofyn i Annea Lockwood, artist sain o'r UDA, ail-greu tri darn o waith oedd yn rhan o gyfres Piano Transplant yn y 60au / 70au. Dyna'n union wnaeth Annea gan gydweithio gyda Dinas Sain Bangor a Gŵyl Gelfyddydol Harwich i gyflawni'r dasg.

Aeth ati i lunio 'Yr Ardd Biano' yng Nghaerdroia, Coed Gwydir, gan blannu piano yn y ddaear. Fel roedd hi wedi ei nodi yn y sgôr ar gyfer y gwaith yn 1969, roedd y piano wedi llwyr ddarfod amdano. Mae'r piano bellach yn raddol ailymuno â natur gyda'r bobl sy'n ymlwybro heibio yn dystion i'r esblygiad hwnnw.

I weld Yr Ardd Biano, dilynwch Lwybr Cerfluniau'r Ceirw yng Nghoedwig Gwydir sy'n arwain at Gaerdroia.

## PIANO GARDEN

In 2013, Soundlands asked USA sound artist Annea Lockwood to re-create all three of her seminal 60s / 70s Piano Transplant series and realised this in collaboration with Bangor Sound City and Harwich Festival of the Arts.

Annea made 'Piano Garden' in Caerdroia, Gwydir Forest - planting a piano in the ground. As prescribed in her 1969 score for the work, the piano was beyond repair and is now slowly returning to nature - while passers by witness its evolution.

You can reach Piano Garden by following the Llwybr y Ceirw (Path of the Deer) Sculpture Trail in Gwydir Forest, which takes you to Caerdroia.



**Piano Garden** (2013, Caerdroia, North Wales)



**Piano Garden** (1969-70, Ingatestone, Essex)
Llun / Photo: Chris Ware



**Piano Burning** (2013, Bangor, North Wales)



**Piano Burning** (1968, London)
Llun / Photo: Anhysbys / Unknown

## ANNEA LOCKWOOD

Mae Annea Lockwood yn gyfansoddwraig o Seland Newydd sydd bellach yn byw yn yr Unol Daliaethau. Yn ystod y 60au bu'n cydweithio gyda beirdd sain, coreograffwyr ac artistiaid gweledol a hefyd yn creu nifer o weithiau fel y Glass Concerts. Dyma esgorodd ar ei diddordeb ysol mewn natur sain a ffynonellau newydd o sain - diddordeb sydd wedi parhau gyda hi hyd heddiw. Ym 1968, pan roedd Christian Barnard yn gweithio ar ei drawsblaniadau calon arloesol, bu i Annea ddechrau ar gyfres o drawsblaniadau ei hun o'r enw Piano Transplants. Yn y gweithiau hyn cai hen bianos eu llosgi, eu boddi, eu cludo i'r lan a'u plannu mewn gardd flodau Seisnig.

Mae llawer o waith cyfansoddi Annea i'w clywed ar labeli fel Lovely, Harmonia Mundi ac Ambitus ac yn cynnwys recordiadau o synau naturiol.

## ANNEA LOCKWOOD

Annea Lockwood is a New Zealand born composer now settled in the USA. During the 1960s she collaborated with sound poets, choreographers and visual artists, and also created a number of works such as the Glass Concerts which initiated her lifelong fascination with timbre and new sound sources. In 1968, and in synchronous homage to Christian Barnard's pioneering heart transplants, Lockwood began a series of Piano Transplants in which defunct pianos were burned, drowned, beached, and planted in an English garden.


Many of her compositions include recordings of natural 'found sounds' and can be heard on labels such as Lovely, Harmonia Mundi and Ambitus.



**Eastern Exposure: Piano Transplant No.4**
(2013, Harwich, Essex)
© Harwich Festival of the Arts



**Piano Drowning** (1972, Amarillo, Texas)
Llun / Photo: Richard Curtain




> “**D**yma'r ail waith yn unig i mi allu plannu piano. Mae hi'n gymaint o wefr, yn enwedig oherwydd y bydd o yma am byth. Dw i wedi bod eisio gwneud hyn ers oesoedd, ond dôn i ddim yn medru efo'r piano cyntaf yn ôl yn y saithdegau.”
> **Annea Lockwood**

> “**I**t's only the second time I've been able to plant a piano. It's such a thrill, especially since it's going to stay here forever, which I long wanted to do and couldn't with the first piano back in the seventies.”
> **Annea Lockwood**













## LLWYBR Y CEIRW

Rhwng 2008 a 2010 bu'r artistiaid preswyl Megan Broadmeadow a Mari Gwent yn llunio cerfluniau yng Nghoed Gwydir. Cawsant eu hysbrydoliaeth o dreftadaeth ganoloesol gyfoethog Llanrwst a'r canlyniad oedd Trywydd Cerfluniau Llwybr y Ceirw. Mae rhai o'r cerfluniau yn talu teyrnged i Dafydd ap Siencyn oedd yn byw yn y goedwig gyda'i fyddin o ddilynwyr yn ystod Rhyfel y Rhosynnau.

## LLWYBR Y CEIRW (PATH OF THE DEER)

During 2008/10, resident artists Megan Broadmeadow and Mari Gwent created sculptures in the Gwydir Forest inspired by the rich medieval history of Llanrwst. These form the Llwybr y Ceirw Sculpture Trail. Some of the sculptures pay homage to Dafydd ap Siencyn who lived in the forest with his army of followers during the War of the Roses.

## CAERDROIA

Mae Caerdroia yn ddrysfa milltir o hyd yng Nghoed Gwydir lle mae yna fan perfformio awyr agored, lle dysgu awyr agored a pherllan gofrestredig. Mae rhwydd hynt i unrhyw un gerdded y llwybr a mwynhau'r goedwig. Mae'r safle'n bymtheg hectar i gyd ac mae modd cyrraedd yno o Lanrwst ar hyd trywydd cerfluniau Llwybr y Ceirw a llwybrau Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

## CAERDROIA

Caerdroia is a mile long labyrinth pathway in the Gwydir Forest, an outdoor performance space, an outdoor education space and a registered orchard. Visitors can walk the pathway and enjoy the forest environment. The fifteen hectares Caerdroia Forest Site is linked to Llanrwst by Llwybr y Ceirw Sculpture Trail and Forestry Commission Wales access routes.

## SOUNDLANDS

Mae Soundlands yn fudiad celfyddydol nid er elw sy'n llunio a chomisiynu gwaith celfyddyd sain ynghyd â gwneud gwaith ymchwil yn y maes.

## SOUNDLANDS

Soundlands is a non-profit arts organisation developing public sound art research, installations and commissions.

## GOLYGFA GWYDYR

Mudiad cymunedol, nid er elw ydy Golygfa Gwydyr sy'n gweithio o'u swyddfa yn Llanrwst. Eu nod yw i helpu cymunedau i fod yn fwy gwydn yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn economaidd; yn ymdrechu i roi cyfleoedd i bobl ddatblygu ac yn gweithio i gyfoethogi bywyd bro.

## GOLYGFA GWYDYR

Golygfa Gwydyr is a non-profit, community led organisation based in Llanrwst. Within the local community and place, they aim to enhance social, environmental and economic resilience and provide opportunities for personal growth and vibrant community relations.


## DIOLCHIADAU

Mewn partneriaeth â Gŵyl Gelfyddydol Harwich, Dinas Sain Bangor a Golygfa Gwydyr.

Wedi ei gyllido gan Cyngor Celfyddydau Cymru a CAE.

Lluniau: Soundlands / Dewi Glyn Jones os nad wedi eu nodi fel aril.

## ACKNOWLEDGEMENTS

In partnership with Harwich Festival of the Arts, Bangor Sound City and Golygfa Gwydir.

Funded by Arts Council of Wales and CAE.

All photos: Soundlands / Dewi Glyn Jones or as credited.



## CYSWLLT

Soundlands
Ciafaic, Stryd Watling
Llanrwst, LL26 0LS
Cymru

+44 (0)1492 642291

post@soundlands.org
www.soundlands.org

## CONTACT

Soundlands
Ciafaic, Watling Street
Llanrwst, LL26 0LS
Wales

+44 (0)1492 642291

post@soundlands.org
www.soundlands.org